| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **22 HYDREF 2010** |
| **TEITL:** | **POLISI TRWYDDEDU** |
| **PWRPAS:** | **ER GWYBODAETH** |
| **AWDUR:** | **RHEOLWR TRWYDDEDU** |

CEFNDIR

Yn unol a Deddf Trwyddedu 2003, mae gofyn ar y Cyngor i adolygu'r Polisi Trwyddedu pob 3 blynedd. Diweddarwyd y Polisi ddiwethaf yng nghyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr, 2007. Y bwriad felly yw cyflwyno Polisi diwygiedig i'w ystyried gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr, 2010.

Y NEWIDIADAU

Gweler o'r polisi drafft a atodir y newidiadau, wedi eu amlygu mewn ysgrifen bras. Nid oes unrhyw newidiadau sylfaenol, gyda'r newidiadau'n adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth neu arweiniad cenedlaethol ar sut yr ymdrinir a rhai elfennau.

YMGYNGHORI

Mae copi o'r polisi wedi ei yrru i pob Cynghorydd, pob Cyngor Cymuned yng Ngwynedd, yr awdurdodau cyfrifol a rhai cyrff perthnasol eraill. Oherwydd i dyddiad y pwyllgor yma gael ei newid, yn anffodus nid wyf mewn sefyllfa i adrodd yn llawn ar unrhyw sylwadau rydym wedi eu derbyn, er teg dweud yn hanesyddol, mai prin yw'r ymateb o ran bod sylwadau'n cael eu derbyn sy'n arwain at newidiadau.

Yn wyneb hyn, gofynnir i'r Pwyllgor awdurdodi'r swyddogion i wneud unrhyw newidiadau perthnasol i'r Polisi cyn y bydd yn cael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Cyngor llawn ar 16 Rhagfyr, 2010, lle bydd cyfle gennych i wneud unrhyw sylwadau pellach bryd hynny.

ARGYMHELLIAD

Bod y Pwyllgor yn derbyn y newidiadau ac yn cymeradwyo'r ffordd ymlaen o ran ymdrin ag unrhyw sylwadau a dderbynnir.